# GOFYNION DILYSU
# AR GYFER GWAHANOL FATHAU O GAIS

## NIFER Y COPÏAU O FFURFLEN GAIS

1. Os bydd cais yn cael ei gyflwyno'n electronig, mae'r darpariaethau statudol yn pennu na fydd angen rhoi unrhyw gopïau ychwanegol gydag ef, un ai o'r cais neu o'r wybodaeth ategol.

2. Os bydd ymgeiswyr yn gwneud cais am ganiatâd ar gopi papur o'r Ffurflen Gais Safonol, rhaid iddynt ddarparu'r ffurflen wreiddiol ynghyd â thri chopi o'r ffurflen ac o unrhyw gynlluniau, lluniau neu wybodaeth ategol sy'n gysylltiedig â'r cais (cyfanswm o bedwar copi) os na fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn nodi bod nifer llai'n ofynnol. Caiff awdurdodau cynllunio lleol ofyn am gopïau ychwanegol ar ben y gofyniad statudol, ond ni fyddai methu â darparu'r rhain yn sail i wrthod dilysu'r cais.

## FFURFLENNI ELECTRONIG A PHAPUR

3. Mae'n bosibl na fydd bob amser yn bosibl cyflwyno gwybodaeth ategol yn electronig oherwydd ei maint a'i hamrywiaeth. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir cyflwyno gwybodaeth ar ffurf copi caled hyd yn oed os yw'r cais wedi'i gyflwyno'n electronig, ond os bydd ymgeiswyr yn cyflwyno gwybodaeth ategol ar ffurf copi caled, rhaid iddynt ddarparu'r gwreiddiol ynghyd â thri chopi (cyfanswm o bedwar copi). Bydd ymgeiswyr sy'n dewis cyflwyno eu cais a gwybodaeth ategol fel hyn yn cael eu hysbysu am ddilysrwydd eu cais pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol wedi'i fodloni ei fod wedi cael yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol ym mha bynnag fformat.

4. Os bydd ymgeiswyr yn cyflwyno cais yn electronig i'r awdurdod cynllunio lleol, gallant gyfathrebu fel hyn drwy gydol y broses ymgeisio oni bai fod yr awdurdod cynllunio lleol a'r ymgeisydd yn cytuno ar ddull arall.

5. Yn achos ceisiadau electronig, bydd yn dderbyniol i ymgeiswyr roi llofnod wedi'i theipio ar y ffurflen wedi'i gwneud o briflythrennau eu henw neu o fanylion yr Asiant os yw'r ffurflen wedi'i llofnodi ar ran yr ymgeisydd.

## TYSTYSGRIFAU PERCHNOGAETH

6. Er mwyn i'r awdurdod cynllunio lleol ddilysu unrhyw gais am ganiatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth, rhaid rhoi tystysgrifau perchnogaeth gydag ef. Mae'r gofyniad am dystysgrifau perchnogaeth yn codi o erthygl 7 o'r Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu Cyffredinol a Rheoliad 6 o'r Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

7. Bellach, yn lle'r tystysgrifau sydd wedi'u rhagnodi yn Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu Cyffredinol ac yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, gofynnir am dystysgrifau sydd wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru a gaiff eu darparu fel rhan o'r Ffurflen Gais Safonol.

8. Bydd angen rhoi llofnod ysgrifenedig gydag unrhyw fersiwn bapur o dystysgrifau'r Ffurflen Gais Safonol a gyflwynir ond, yn achos unrhyw dystysgrif a gyflwynir yn electronig, bydd llofnod wedi'i theipio o enw'r ymgeisydd yn dderbyniol.

**Pwrpas y gofynion dilysu**

9. Mae llawer o wahanol fathau o ddatblygu a bydd yn digwydd ar amryw o raddfeydd ac, felly, bydd y wybodaeth sy'n ofynnol i ddod i benderfyniad rhesymedig ynghylch a ddylid rhoi caniatâd yn amrywio hefyd. Er y dylai'r wybodaeth ofynnol fod yn gymesur at ei gilydd â maint neu gymhlethdod y datblygu, mae'n anodd gosod canllawiau ynghylch beth yn union a fydd yn ofynnol ym mhob achos. Fodd bynnag, ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau, bydd y Ffurflen Gais Safonol (sydd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd ac ar y Porth Cynllunio) ynghyd â dogfennau ychwanegol sydd wedi'u crybwyll yn y ffurflen (er enghraifft, asesiadau canlyniadau llifogydd), yn rhoi'r sicrwydd sy'n ofynnol i ymgeiswyr ac yn rhoi digon o wybodaeth i awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi ym mharagraff 4. Bydd Cyngor Gwynedd yn penderfynu ynghylch gofynion am wybodaeth mewn modd cyson a chymesur.
10. Ar ôl cyflwyno'r eitemau hyn, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn dod dan amryw o ddyletswyddau, fel honno i gofrestru'r cais a hysbysu cyrff eraill. Os bydd y wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno'n annigonol i gyflawni'r gofynion uchod, bydd yr awdurdod cynllunio lleol dan ddyletswydd i hysbysu ymgeisydd am hyn. Felly mae'r broses o gadarnhau bod yr holl eitemau gofynnol wedi'u cyflwyno, sy'n cael ei galw fel arfer yn **'ddilysu'**, yn un bwysig gan ei bod yn galluogi'r awdurdod i ganfod pa ddyletswyddau y gall neu y mae'n rhaid iddo eu cyflawni.

11. Drwy ddilysu, gwelir a yw'r gofynion am wybodaeth ar gyfer y math o gais wedi'u bodloni. Mae'r wybodaeth sydd yn y ddogfen hon a'r atodiad iddi'n cynnwys rhestrau o beth sy'n ofynnol ar gyfer pob math o ganiatâd ac yn dangos y gwahanol ofynion cyfreithiol. Bydd y gofynion yn gymwys pa un a yw'r cais wedi'i gyflwyno ar bapur neu'n electronig.

**12. Os oes bylchau amlwg neu wallau amlwg, bydd hawl gan yr awdurdod cynllunio lleol i ddatgan bod y cais yn annilys. Bydd yr awdurdod yn hysbysu'r ymgeisydd drwy lythyr, gan ddatgan y rhesymau sydd gan yr awdurdod cynllunio lleol dros ffurfio'r farn hon a nodi'r wybodaeth sydd heb ei rhoi y mae'n ofynnol ei chael gan yr ymgeisydd i wneud y cais yn ddilys. Os na roddir y wybodaeth o fewn cyfnod rhesymol sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad, bydd yr awdurdod yn dychwelyd y cais ac unrhyw ffi a dalwyd i'r ymgeisydd.**

13. Nid rhywbeth a ddylai ddigwydd yn aml yw bod cais yn cael ei gofrestru'n ddilys ar ôl ei ddilysu, a'i gael yn annilys wedyn am nad yw'n cynnwys y wybodaeth ofynnol. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, os caiff sieciau eu gwrthod neu os gwneir datganiadau ffug ar dystysgrifau. Fel arfer sylwir ar fylchau mewn gwybodaeth y mae'n ofynnol ei rhoi ar y Ffurflen Gais Safonol wrth ddilysu.

**Gwybodaeth sy'n ategu ceisiadau**

14. Er mwyn cofrestru'r ceisiadau'n rhai 'dilys', rhaid i ymgeiswyr ddarparu'r holl wybodaeth ofynnol sydd wedi'i nodi ar y Ffurflen Gais Safonol, fel cynlluniau, diagramau a thystysgrifau ac unrhyw asesiadau ategol ychwanegol. Mae hefyd yn ofynnol talu ffi am rai mathau o gais. Caiff yr awdurdod cynllunio lleol ddewis llunio a mabwysiadu 'Gofynion Dilysu Lleol' a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr roi'r wybodaeth hon os byddant yn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio sy'n cynnwys 'datblygu mawr'. Mae Tabl 1 drosodd yn dangos y gofynion ar gyfer cais dilys.

15. Mae rhestrau o'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y gwahanol fathau o gais yn **Atodiad A** i'r ddogfen hon. Os yw ymgeiswyr yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ynghyd â mathau eraill o ganiatâd sy'n gysylltiedig, rhaid iddynt gyflwyno'r wybodaeth ofynnol sydd yn y rhestrau priodol yn **Atodiad A**. Er enghraifft, efallai y bydd cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer estyniad i annedd ac am ganiatâd adeilad rhestredig. Yn yr achos hwn, dylid rhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol yn Rhestr 1 (ceisiadau gan ddeiliaid tai) ac yn Rhestr 8 (ceisiadau adeiladau rhestredig) gyda'r cais.

16. Mae'r Ffurflen Gais Safonol yn nodi y gallai gwybodaeth ychwanegol fod yn ofynnol ar gyfer rhai ceisiadau. Mae'r materion hyn wedi'u rhestru yn **Atodiad A** gyda chroesgyfeiriad at **Atodiad B** sy'n cynnwys cyngor ar y gofynion cenedlaethol hyn a'r amgylchiadau lle mae'n rhaid darparu gwybodaeth o'r fath.

17. Derbynnir na fydd bob amser yn bosibl cyflwyno dogfennau ategol yn electronig oherwydd maint ac amrywiaeth y wybodaeth. Yn yr amgylchiadau hyn, gellir cyflwyno dogfennau ar ffurf copi caled hyd yn oed os yw'r cais ei hun wedi'i gyflwyno'n electronig.

18. Gallwch gael cyngor ffurfiol gan y Gwasanaeth Cynllunio drwy ddefnyddio gwasanaeth Cynghori Cyn Ymgeisio Gwynedd i gadarnhau pa wybodaeth yn **Atodiad A** y bydd yn ofynnol i chi ei chyflwyno fel rhan o'ch cais, ac i gadarnhau'r ffi gynllunio, os yw hynny'n berthnasol. Felly drwy ddefnyddio gwasanaeth Cynghori Cyn Ymgeisio Gwynedd, dylech gael cymorth i gyflwyno cais dilys a dylai'ch cais gael ei drin yn gynt gan y Cyngor.

**ATODIAD A**

**GOFYNION DILYSU**

**Rhestr 1 –**
**Ceisiadau Cynllunio gan Ddeiliaid Tai**
(Ceisiadau sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu gan ddeiliad tŷ yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990).

Mae datblygu gan ddeiliaid tai'n cynnwys cyflawni gweithrediadau (gan gynnwys codi adeilad) o fewn cwrtil tŷ annedd presennol, at ddibenion sy'n ategu mwynhad o'r tŷ annedd fel y cyfryw, neu godi neu adeiladu gatiau, ffensiau, waliau neu ddulliau amgáu eraill ar hyd terfyn cwrtil tŷ annedd presennol.

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|
| 1. **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| - yn cynnwys tystysgrif perchnogaeth a thystysgrif daliad amaethyddol wedi'u cwblhau | B9-B10<br>B12 |
| 2. **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol** | |
| - Cynllun lleoliad | B4-B6 |
| - Cynlluniau eraill a lluniau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio testun y cais gan gynnwys:<br>- Cynllun safle<br>- Gweddluniau presennol ac arfaethedig<br>- Cynlluniau llawr presennol ac arfaethedig<br>- Trawsluniau safle presennol ac arfaethedig a lefelau gorffenedig y lloriau a'r safle *(A)<br>- Cynlluniau to *(B) | B8 |
| * Amgylchiadau:<br>A – Ym mhob achos lle mae Cynnig i newid lefelau daear<br>B – Lle mae Cynnig i newid neu ymestyn to | |
| 3. **Ffi** | B13 |
| **Gofynion polisi cenedlaethol**<br>-Arolwg ac adroddiad bioamrywiaeth | B14-B17 |

**Rhestr 2 –**
**Ceisiadau Cynllunio Mawr a Bach (heb gynnwys ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai)**

(Ceisiadau sy'n gofyn am ganiatâd ar gyfer datblygu yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)

Mae'n cynnwys ceisiadau am dynnu neu gloddio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion o gloddio mwynau (ond gan ddefnyddio ffurflen Cyngor Gwynedd yn lle'r Ffurflen Gais Safonol)

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | **Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad** |
|---|---|
| 1. **Ffurflen Gais Safonol B2** | B2 |
| - yn cynnwys tystysgrif perchnogaeth a thystysgrif daliad B9-B10 | B9-B10 |
| amaethyddol wedi'u cwblhau B12 | B12 |
| 2. **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol** | |
| - Cynllun lleoliad | B4-B6 |
| - Cynlluniau eraill a lluniau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio testun y cais gan gynnwys: | B7-B8 |
| - Cynllun safle | |
| - Cynllun bloc | |
| - Gweddluniau presennol ac arfaethedig *(A) | |
| - Cynlluniau llawr presennol ac arfaethedig *(A, B) | |
| - Trawsluniau safle presennol ac arfaethedig a lefelau gorffenedig y lloriau a'r safle *(A, B, C) | |
| - Cynlluniau to *(A, B) | |
| *Amgylchiadau: | |
| A – lle y gofynnir am gymeradwyo mater a gadwyd yn ôl ar 'ymddangosiad' | |
| B – lle y gofynnir am gymeradwyo mater a gadwyd yn ôl ar 'raddfa' a/neu 'osodiad' | |
| C – ym mhob achos lle mae cynnig i newid lefelau daear | |
| 3. **Ffi** | B13 |
| 4. **Gofynion dilysu lleol** Datganiad Cymunedol neu Ieithyddol neu Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn unol â Chanllaw Cynllunio Atodol Gwynedd a fabwysiadwyd: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Tachwedd 2009) | |

**Gofynion cenedlaethol**

| | |
|---|---|
| - Arolwg ac adroddiad bioamrywiaeth | B14-B17 |
| - Datganiad Dylunio a Mynediad | B18-B26 |
| - Datganiad Amgylcheddol | B27-B28 |
| - Asesiad Canlyniadau Llifogydd | B29-B31 |
| - Adroddiad Mwyngloddio | B32 |
| - Asesiad Sŵn | B33 |
| - Asesiad Effaith Manwerthu | B34 |
| - Arfarniad o Annedd Menter Wledig | |
| - Asesiad Trafnidiaeth | B36 |
| - Arolwg Coed | B37 |

**Rhestr 3 –**
**Cymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl**

(Ceisiadau sy'n gofyn am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl yn rhinwedd erthygl 4 o'r Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu Cyffredinol)

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|
| 1. **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| 2. **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol** | |
| - Cynllun lleoliad | B4-B6 |
| - Cynlluniau eraill a lluniau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio testun y cais gan gynnwys: | B7-B8 |
| - Cynllun safle | |
| - Cynllun bloc | |
| - Gweddluniau presennol ac arfaethedig *(A) | |
| - Cynlluniau llawr presennol ac arfaethedig *(A, B) | |
| - Trawsluniau safle presennol ac arfaethedig a lefelau gorffenedig y lloriau a'r safle *(A, B, C) | |
| - Cynlluniau to *(A, B) | |

*Amgylchiadau:
A – lle y gofynnir am gymeradwyo mater a gadwyd yn ôl ar 'ymddangosiad'
B – lle y gofynnir am gymeradwyo mater a gadwyd yn ôl ar 'raddfa' a/neu 'osodiad'
C – ym mhob achos lle mae cynnig i newid lefelau daear

| | |
|---|---|
| 3. **Ffi** | B13 |

**Rhestr 4 –**
**Dileu neu amrywio amod ar ôl rhoi caniatâd cynllunio**

(Ceisiadau sy’n gofyn am ddileu neu amrywio amod yn rhinwedd adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)

Mae’r gofynion manwl i’w pennu’n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|---|
| 1. | **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| | - yn cynnwys tystysgrif perchnogaeth a thystysgrif daliad amaethyddol wedi’u cwblhau | B9-B10<br>B12 |
| 2. | **Ffi** | B13 |

**Rhestr 5 –**
**Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd neu weithrediad neu weithgarwch presennol gan gynnwys y rheini sy’n torri amod cynllunio**

(Ceisiadau sy’n gofyn am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon yn rhinwedd adran 191 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)

Mae’r gofynion manwl i’w pennu’n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|---|
| 1. | **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| 2. | **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol** | |
| | - Cynllun lleoliad | B4-B6 |
| | - Hynny o dystiolaeth y gellir ei darparu i gadarnhau’r wybodaeth sydd yn y cais | |
| | - Hynny o wybodaeth arall y credir ei bod yn berthnasol i’r cais | |
| 3. | **Ffi** | B13 |

**Rhestr 6 –**
**Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd arfaethedig o ddatblygiad**

(Ceisiadau sy'n gofyn am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon yn rhinwedd adran 192 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|
| 1. **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| 2. **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol** | |
| - Cynllun lleoliad | B4-B6 |
| - Hynny o dystiolaeth y gellir ei darparu i gadarnhau'r wybodaeth sydd yn y cais | |
| 3. **Ffi** | B13 |

**Rhestr 7 –**
**Caniatâd Hysbyseb**

(Ceisiadau sy'n gofyn am Ganiatâd Diamwys yn rhinwedd Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheolaeth ar Hysbysebion) 1992)

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|
| 1. **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| 2. **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol** | |
| - Cynllun lleoliad sy'n dangos lleoliad y safle drwy gyfeirio at o leiaf dwy lôn / ffordd a enwyd. | B4-B6<br>B8 |
| - Cynlluniau eraill a lluniau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio testun y cais gan gynnwys: | |
| - Gweddluniau presennol ac arfaethedig | |
| - Lluniau o'r hysbyseb | |
| 3. **Ffi** | B13 |

**Rhestr 8 –**
**Caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer newidiadau, ymestyn neu ddymchwel adeilad rhestredig**

(Ceisiadau sy'n gofyn am Ganiatâd Adeilad Rhestredig yn rhinwedd adran 8 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (c.9))

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|---|
| 1. | **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| | - yn cynnwys tystysgrif perchnogaeth wedi'i chwblhau | B9-B10 |
| 2. | **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol** | |
| | - Cynllun lleoliad | B4-B6 |
| | - Cynlluniau eraill a lluniau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio testun y cais gan gynnwys: | B8 |
| | - Gweddluniau presennol ac arfaethedig | |
| | - Cynlluniau llawr presennol ac arfaethedig | |
| | - Trawsluniau safle presennol ac arfaethedig a lefelau gorffenedig y lloriau a'r safle | |
| | - Cynlluniau'n dangos drysau, ffenestri, blaenau siopau, paneli, lleoedd tân, mowldiau plaster a manylion addurnol eraill newydd | |
| | - Cynlluniau to | |
| 3. | **Ffi** | **Dim ffi** |

**Rhestr 9 –**
**Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel mewn Ardal Gadwraeth**

(Ceisiadau sy'n gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth yn rhinwedd adran 74 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (c. 9))

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|---|
| 1. | **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| | - yn cynnwys tystysgrif perchnogaeth wedi'i chwblhau | B9-B10 |
| 2. | **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol** | |
| | - Cynllun lleoliad | B4-B6 |
| | - Cynlluniau eraill a lluniau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio testun y cais gan gynnwys: | B8 |
| | - Gweddluniau presennol ac arfaethedig | |
| 3. | **Ffi** | **Dim ffi** |

**Rhestr 10 –**
**Hysbysiad ymlaen llaw am ddatblygiad amaethyddol arfaethedig**

(Ceisiadau sy'n gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol mewn cysylltiad â lleoli, dyluniad ac ymddangosiad allanol adeiladau, lleoliad a mynedfa ffordd breifat, lleoliad cloddfa neu ddyddodiad, neu leoliad ac ymddangosiad tanc yn rhinwedd Dosbarth A o Ran 6 a Dosbarth A o Ran 7 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995)

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|---|
| 1. | **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| 2. | **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol**<br>o Cynllun lleoliad | B4-B6 |
| 3. | **Ffi** | B13 |

**Rhestr 11 –**
**Cymeradwyo ymlaen llaw – rhan 24 (datblygu gan weithredwyr systemau codau cyfathrebu electronig) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir**

(Ceisiadau sy'n gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol yn rhinwedd amodau Rhan 24 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995)

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|---|
| 1. | **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| 2. | **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol**<br>- Cynllun lleoliad<br>- Datganiad o gydymffurfiad â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Pelydredd nad yw'n ïoneiddio (ICNIRP) | <br>B4-B6 |
| 3. | **Ffi** | B13 |

**Rhestr 12 –**
**Cymeradwyaeth ymlaen llaw – rhan 31 (dymchwel adeiladau) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir**

(Ceisiadau sy'n gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol yn rhinwedd amodau Rhan 31 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995)

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|
| 1. **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| 2. **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol** | |
| - Cynllun lleoliad | B4-B6 |
| - Datganiad bod yr ymgeisydd wedi arddangos hysbysiad safle yn unol ag A.2(b)(iii) o Ran 31 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 | |
| 3. **Ffi** | B13 |

**Rhestr 13 –**
**Cais am rybudd tynnu gwrych**

(Cyflwyno 'Rhybudd Tynnu Gwrych' yn rhinwedd Rheoliad 5 o Reoliadau Gwrychoedd (Perthi) 1997)

Mae'r gofynion manwl i'w pennu'n unol â deddfwriaeth ffynhonnell neu bolisi.

| | Paragraffau perthnasol yn Atodiad B er arweiniad |
|---|---|
| 1. **Ffurflen Gais Safonol** | B2 |
| 2. **Cynlluniau a gwybodaeth berthnasol** | |
| - Cynllun yn dangos lleoliad a hyd y gwrych(oedd) a dynnir | |
| - Tystiolaeth o ddyddiad y plannu | |
| 3. **Ffi** | **Dim Ffi** |

## ATODIAD B

## Canllawiau ar Ofynion Gwybodaeth Cenedlaethol

B1
Mae canllawiau isod i ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio lleol ar y gofynion am wybodaeth er mwyn dilysu ceisiadau, a’r amgylchiadau lle y bydd y wybodaeth yn ofynnol.

### Y Ffurflen Gais Safonol (1APP)

B2
O (dyddiad i’w fewnosod) bydd angen cyflwyno pob cais cynllunio ar Ffurflen Gais Safonol, sydd ar gael yn electronig, ar wefan yr awdurdod lleol a gwefan y Porth Cynllunio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno annog ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau’n electronig lle bynnag y bo modd, gan fod hyn yn cynnig cyfleoedd i symleiddio gweithdrefnau a lleihau costau drwy hynny. Er hynny, bydd ymgeiswyr yn cael dewis cyflwyno fersiynau papur o’r ffurflen o hyd. Os byddant yn gwneud hynny, mae’r Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu Cyffredinol yn mynnu y bydd tri chopi ychwanegol ynghyd â’r Ffurflen Gais Safonol wreiddiol wedi’i chwblhau’n cael eu cyflwyno. Gallai’r awdurdod cynllunio lleol ofyn i’r ymgeisydd gyflwyno mwy na thri chopi, ond y gwreiddiol ynghyd â thri chopi yw’r gofyniad statudol am gais dilys.

### Dogfennau eraill

B3
Yn ogystal â chwblhau’r Ffurflen Gais Safonol, gallai fod yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno’r cynlluniau a’r lluniau canlynol.

### Y cynllun lleoliad

B4
Rhaid i bob cais gynnwys copïau o gynllun lleoliad wedi’i seilio ar fap cyfredol. Dylai hwn fod ar raddfa o 1:1250 neu 1:2500. Mae’r Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu Cyffredinol yn galw am gyflwyno tri chopi ynghyd â’r gwreiddiol (oni bai ei fod wedi’i gyflwyno’n electronig). Mewn amgylchiadau eithriadol gallai fod yn ofynnol cyflwyno cynlluniau ar raddfeydd eraill hefyd. Lle bynnag y bo modd, dylai cynlluniau ddangos

o leiaf ddwy ffordd wedi’u henwi ac adeiladau sydd o gwmpas safle’r cais. Dylid rhifo neu enwi pob eiddo a ddangosir i sicrhau bod union leoliad safle’r cais yn glir.

B5
Dylid tynnu llinell goch glir ar hyd ymyl safle’r cais. Dylai gynnwys yr holl dir sydd ei angen i gyflawni’r datblygiad arfaethedig – er enghraifft, tir sydd ei angen i gael mynediad i’r safle o briffordd gyhoeddus, lleiniau gwelededd, tirweddu, mannau parcio a mannau agored o gwmpas adeiladau.

B6
Dylid tynnu llinell las o gwmpas unrhyw dir arall ym mherchnogaeth yr ymgeisydd sy’n agos i safle’r cais neu’n cyd-ffinio ag ef.

**Cynlluniau Safle a Chynlluniau Eraill**

B7

Dylid cyflwyno copïau o'r cynllun safle. Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu y bydd tri chopi ynghyd â'r gwreiddiol y cael eu cyflwyno (oni bai ei fod yn cael ei gyflwyno'n electronig). Dylid tynnu'r cynllun safle ar raddfa sydd wedi'i nodi, ar 1:500 neu 1:200 os oes modd, a dylai ddangos yn gywir:

a) cyfeiriad y Gogledd;
b) y berthynas rhwng y datblygiad arfaethedig a ffiniau'r safle ac adeiladau presennol eraill ar y safle, gyda dimensiynau ysgrifenedig gan gynnwys y rheini at y ffiniau;
c) yr holl adeiladau, ffyrdd a llwybrau troed ar dir sy'n gyfagos i'r safle gan gynnwys trefniadau mynediad;
d) yr holl hawliau tramwy cyhoeddus sy'n croesi'r safle neu'n gyfagos iddo; (Llwybr troed, llwybr ceffylau, cilffordd gyfyngedig neu gilffordd sy'n agored i bob traffig)
e) lleoliad yr holl goed sydd ar y safle, a'r rheini ar dir cyfagos a allai ddylanwadu ar y datblygiad neu ddod dan ei effaith;
f) hyd a lled a math unrhyw wynebau caled; a
g) triniaeth y terfyn gan gynnwys waliau neu ffensiau os ydynt wedi'u cynnig.

B8

Yn ogystal â hynny, dylid cyflwyno cynlluniau eraill (yn ôl y math o gais) a gallent gynnwys:

- **Gweddluniau presennol ac arfaethedig** (e.e. ar raddfa o 1:50 neu 1:100)

Dylid tynnu'r rhain ar raddfa o 1:50 neu 1:100 gan ddangos yn glir y gwaith arfaethedig mewn cysylltiad â'r hyn sydd yno eisoes. Rhaid dangos pob ochr o'r datblygiad arfaethedig a dylai'r ochrau ddangos, os oes modd, y defnyddiau adeiladu arfaethedig a'r arddull, defnyddiau a gorffeniad ffenestri a drysau. Rhaid cynnwys gweddluniau gwag hefyd, er mwyn dangos eu bod yn wag yn anad dim. Os yw gweddlun arfaethedig yn gyfagos i adeilad arall neu'n agos iawn iddo, dylai'r lluniau ddangos yn glir y berthynas rhwng yr adeiladau, a nodi lleoliadau'r agoriadau ym mhob eiddo.

- **Cynlluniau llawr presennol ac arfaethedig** (e.e. ar raddfa o 1:50 neu 1:100)

Dylid tynnu'r rhain ar raddfa o 1:50 neu 1:100 a dylent egluro'r cynnig yn fanwl. Os oes bwriad i ddymchwel adeiladau neu waliau presennol, dylid dangos y rhain yn glir. Dylai'r lluniau a gyflwynir dangos manylion yr adeilad(au) presennol yn ogystal â'r rheini ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Dylid dangos adeiladau newydd hefyd yn eu cyd-destun gydag adeiladau cyfagos (gan gynnwys rhifau'r adeiladau os yw hynny'n gymwys).

- **Trawsluniau safle presennol ac arfaethedig a lefelau gorffenedig y lloriau a'r safle** (e.e. ar raddfa o 1:50 neu 1:100)

Ym mhob achos lle mae cynnig yn golygu newid lefelau daear, dylid cyflwyno lluniau esboniadol i ddangos y lefelau presennol a'r lefelau gorffenedig gan gynnwys manylion sylfeini a bargodion a sut na fydd y datblygiad yn ennill ar dir cyfagos. Dylid tynnu cynlluniau o'r fath ar raddfa o 1:50 neu 1:100 gan ddangos croestoriad(au) drwy'r adeilad(au) arfaethedig.

Dylid cyflwyno gwybodaeth lawn hefyd i ddangos y berthynas rhwng yr adeiladau arfaethedig â lefelau presennol y safle a datblygiadau gerllaw. Dylai cynlluniau o'r fath ddangos lefelau presennol y safle a lefelau llawr gorffenedig (a'r lefelau wedi'u cysylltu â phwynt datwm sefydlog oddi ar y safle), a dangos hefyd y berthynas rhwng y cynigion ac adeiladau cyfagos.

Bydd hyn yn ofynnol ar gyfer pob cais sy'n cynnwys adeiladau newydd. Yn achos datblygu gan ddeiliaid tai, gallai'r lefelau fod yn amlwg o'r cynlluniau llawr a'r gweddluniau ond, yn enwedig yn achos safleoedd sydd ar oleddf, bydd angen dangos y berthynas rhwng y cynigion a'r lefelau daear bresennol neu lle byddai lefelau daear y tu allan i'r estyniad yn cael eu newid. Dylid cymryd lefelau i ystyriaeth hefyd wrth lunio datganiadau dylunio a mynediad.

- **Cynlluniau to** (e.e. ar raddfa o 1:50 neu 1:100)

Bydd yn ofynnol cyflwyno cynlluniau to os yw'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys newid neu ymestyn y to. Defnyddir cynllun to i ddangos siâp y to a chaiff ei dynnu fel arfer ar raddfa lai na'r raddfa a ddefnyddir ar gyfer y cynlluniau llawr. Fel arfer nodir manylion fel y defnyddiau toi a'u lleoliad ar y cynllun to.

- **Lluniau hysbysebion** (e.e. ar raddfa o 1:50 neu 1:100)

Bydd yn ofynnol cyflwyno lluniau hysbysebion ar gyfer ceisiadau am ganiatâd hysbyseb. Dylai'r lluniau ddangos maint yr hysbyseb, ei lleoliad, y defnyddiau a'r lliwiau a ddefnyddir, ei huchder o'r ddaear, y graddau y bydd yn estyn allan a manylion y dull a'r lliw(iau) goleuo os yw hyn yn gymwys.

- **Manylion Adeilad Rhestredig**

Dylai ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig gael eu cyflwyno gyda chynlluniau sy'n dangos drysau, ffenestri, blaenau siopau, paneli, lleoedd tân, mowldiau plaster a manylion addurnol eraill newydd arfaethedig.

**Tystysgrifau Perchnogaeth**

<u>B9</u>
Dan adran 65(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, o'i darllen ar y cyd ag Erthygl 7 o'r Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu Cyffredinol, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol beidio ag ystyried cais am ganiatâd cynllunio oni bai fod y tystysgrifau perthnasol sy'n ymwneud â pherchnogaeth safle'r cais wedi'u cwblhau. Rhaid cynnwys y dystysgrif perchnogaeth briodol ym mhob cais am ganiatâd cynllunio. Rhaid cwblhau tystysgrif perchnogaeth A, B, C neu D, gan ddatgan perchnogaeth yr eiddo.

<u>B10</u>
I'r amcan hwn, ystyr 'perchennog' yw unrhyw un sydd â buddiant rhydd-ddaliadol, neu fuddiant lesddaliadol nad yw'r cyfnod ohono sydd heb ddod i ben yn llai na 7 mlynedd.

**Hysbysiad(au)**

B11
Rhaid cwblhau hysbysiad i berchnogion safle'r cais a'i gyflwyno'n unol ag Erthygl 6 o'r Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu Cyffredinol.

**Tystysgrif Daliad Amaethyddol**

B12
Mae'r dystysgrif hon yn ofynnol pa un a yw'r safle'n cynnwys daliad amaethyddol ai peidio. Rhaid hysbysu pob tenant amaethyddol cyn cyflwyno'r cais. Nid yw'r dystysgrif hon yn ofynnol os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am faterion a gadwyd yn ôl, am adnewyddu caniatâd cynllunio dros dro, am ryddhau neu amrywio amodau, am orchmynion cadw coed, neu am ganiatâd diamwys i arddangos hysbyseb.

**Y ffi gywir (os oes angen talu un)**

B13
Mae'n ofynnol talu ffi am y rhan fwyaf o geisiadau dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989, fel y maent wedi'u diwygio. Mae'r rheoliadau'n nodi unrhyw esemptiadau rhag ffioedd.

**Gwybodaeth Ategol Ychwanegol sy'n Ofynnol gan y Ffurflen Gais Safonol Arolwg ac adroddiad bioamrywiaeth**

B14
Os yw cais yn debygol o effeithio ar Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop, rhaid i'r ymgeisydd ymgynghori ag ecolegydd hyfforddedig annibynnol, e.e. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, i ganfod effeithiau tebygol y cynnig. Byddai rhai cynigion sy'n cynnwys gwaith fel dymchwel adeiladau hyn neu ofod o dan y to, tynnu coed, prysgoed, gwrychoedd neu newidiadau mewn cyrsiau dwr yn gallu effeithio ar rywogaethau a warchodir a bydd angen darparu gwybodaeth mewn ceisiadau am y rhain, ac unrhyw effeithiau posibl arnynt ac unrhyw gynigion i leihau effeithiau o'r fath, fel y gellir ystyried yr effeithiau hynny'n llawn.

B15
Os gwneir cynigion ar gyfer mesurau lliniaru a/neu wneud iawn, bydd angen rhoi gwybodaeth i ategu'r cynigion hynny. Os yw'n briodol, dylai cynlluniau sydd gyda'r cais ddangos unrhyw gynefinoedd neu nodweddion bywyd gwyllt arwyddocaol a lleoliad cynefinoedd unrhyw rywogaethau a warchodir dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 1994 neu Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992.

B16

Os bydd ceisiadau am ddatblygu yng nghefn gwlad yn effeithio ar ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd buddiannau bioamrywiaeth, mae'n debygol y bydd angen iddynt gynnwys asesiadau o effeithiau a chynigion ar gyfer gwaith cynnal a rheoli hirdymor. Gallai'r wybodaeth hon fod yn rhan o Ddatganiad Amgylcheddol, os oes angen un.

B17
Gallai gofynion dilysu lleol alw am roi gwybodaeth benodol lle y gallai datblygu arfaethedig gael effeithiau posibl ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth o bwysigrwydd lleol. Gallent alw yn yr un modd am wybodaeth am fuddiannau bioamrywiaeth presennol ac effeithiau posibl arnynt yn yr un modd ag y mae'r Ffurflen Gais Safonol yn gofyn am wybodaeth am rywogaethau a chynefinoedd a warchodir. Mae mwy o gyngor ar gael am warchod buddiannau bioamrywiaeth o bwysigrwydd lleol yn Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio. Gallai deunydd a gynhyrchir gan gyrff eraill fod yn adnodd cyfeirio buddiol hefyd i awdurdodau cynllunio lleol wrth ddatblygu gofynion dilysu lleol.
(Mae'r Sefydliad Safonau Prydeinig wedi cynhyrchu Safon a Gyhoeddwyd, PAS 2010 Planning to halt the loss of Biodiversity sydd ar ffurf argymhellion ar weithdrefnau safonol i gymryd bioamrywiaeth i ystyriaeth yn y broses gynllunio, ac mae Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol wedi datblygu templed arferion da (sydd ar gael yn http://www.alge.org.uk) sy'n cynnig gofynion dilysu manwl ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol.)

**Datganiadau Dylunio a Mynediad**

B18
Mae'n ofynnol dan ddeddfwriaeth (o Fehefin 2009) roi datganiad dylunio a mynediad gyda phob cais cynllunio (rhai llawn ac amlinellol) ac eithrio rhai ar gyfer:

- Gweithrediadau peirianegol neu fwyngloddio;
- Datblygu gan ddeiliaid tai (h.y. datblygu ty annedd presennol, neu ddatblygu o fewn cwrtil, at unrhyw ddiben sy'n ategu mwynhad o'r ty annedd) (D.S. bydd angen datganiad ar gyfer pob annedd newydd);
- Newid defnydd Perthnasol ar dir neu mewn adeiladau. Fodd bynnag, os bydd y newid defnydd yn creu'r angen am fynediad gan gyflogai, neu ddarparu gwasanaethau (gan gynnwys nwyddau neu gyfleusterau) i'r cyhoedd, mae'n ofynnol rhoi datganiad sy'n ymwneud â materion mynediad i ddelio â materion dylunio'n unig.

B19
Mae hefyd yn ofynnol dan ddeddfwriaeth roi datganiad dylunio a mynediad gyda phob cais am ganiatâd adeilad rhestredig. Fodd bynnag, os yw'r cais am waith ar y tu mewn yn unig, dim ond materion dylunio y mae'n ofynnol eu trafod yn y datganiad.

B20
Nid yw'n ofynnol rhoi datganiad dylunio a mynediad gydag unrhyw fath arall o gais (e.e. ceisiadau'n ymwneud â rheolaeth ar hysbysebion, gorchmynion cadw coed neu storio sylweddau peryglus).

B21
Os yw'n ofynnol i ddatganiad dylunio a mynediad a gyflwynir gyda chais cynllunio drafod materion dylunio, rhaid iddo gynnwys y penawdau canlynol, er na fydd yn gyfyngedig iddynt:

- Cynaliadwyedd amgylcheddol
- Symud i mewn ac allan o'r datblygiad ac oddi mewn iddo
- Cymeriad (yn cynnwys tirweddu, maint, graddfa ac ymddangosiad)

- Diogelwch cymunedol Rhaid iddo ddangos hefyd sut y mae cyd-destun ffisegol, cymdeithasol, economaidd a pholisi'r datblygiad wedi'i arfarnu a'i gymryd i ystyriaeth.

B22
Rhaid i ddatganiad dylunio a mynediad ar gyfer ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ymdrin, fel gofyniad sylfaenol, ag ymddangosiad, cynaliadwyedd amgylcheddol, gosodiad a graddfa a dylai egluro sut mae'r dyluniad yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Pensaernïaeth arbennig neu bwysigrwydd hanesyddol yr adeilad arwyddocâd
- Nodweddion ffisegol penodol yr adeilad (gan gynnwys ei pensaernïol a/neu hanesyddol) sy'n cyfiawnhau ei ddynodi'n adeilad rhestredig
- Lleoliad yr adeilad

B23
Mewn cysylltiad â mynediad, rhaid egluro mewn datganiad dylunio a mynediad a gyflwynir gyda chais cynllunio, y polisi neu'r dull gweithredu a fabwysiadwyd (gan gynnwys sut y mae polisïau perthnasol y cynllun datblygu wedi'u hystyried, sut y mae unrhyw faterion penodol a allai effeithio ar fynediad wedi'u trafod a sut y cedwir nodweddion sy'n sicrhau mynediad).

B24
Os yw'n ofynnol trafod materion mynediad mewn datganiad dylunio a mynediad a gyflwynir gyda chais am ganiatâd adeilad rhestredig, rhaid iddo egluro'r polisi neu ddull gweithredu a fabwysiadwyd ynghylch mynediad, gan gynnwys manylion mynedfeydd eraill sydd wedi'u hystyried. Rhaid egluro hefyd yn y datganiad dylunio a mynediad sut mae'r canlynol wedi'u hystyried: polisïau perthnasol yn y cynllun datblygu, pwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad, y nodweddion sy'n cyfiawnhau rhestru'r adeilad, a lleoliad yr adeilad.

B25
Dylid egluro'r datganiad dylunio a mynediad, fel y bo'n briodol, drwy'r canlynol:

- Dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun
- Cynlluniau, gweddluniau a thrawsluniau
- Ffotograffau o'r safle a'i amgylchoedd
- Lluniau eraill fel persbectifau

B26
Mae canllawiau manwl pellach ar gynnwys datganiad dylunio a mynediad a sut i'w baratoi yn Atodiad 1 i Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2009).

**Datganiad Amgylcheddol**

B27
Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (OS 1999/293), fel y maent wedi'u diwygio, yn egluro'r amgylchiadau lle mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn ofynnol. Gallai AEA ddileu'r angen am asesiadau eraill mwy penodol.

B28
Os yw'n ofynnol rhoi AEA, mae Atodlen 4 i'r rheoliadau'n nodi'r wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol. Rhaid ystyried y wybodaeth sydd yn y Datganiad Amgylcheddol pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu a fydd yn rhoi caniatâd cynllunio. Gallai fod yn fuddiol i ddatblygwr ofyn am 'farn sgrinio' (h.y. i benderfynu a yw AEA yn ofynnol) gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn cyflwyno cais cynllunio. Mewn achosion lle nad yw AEA llawn yn ofynnol, gallai'r awdurdod cynllunio lleol ofyn am ddarparu gwybodaeth amgylcheddol er hynny.

**Asesiad Canlyniadau Llifogydd**

B29
Bydd yn ofynnol rhoi Asesiad Canlyniadau Llifogydd (ACLl) yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15 'Datblygu a Pherygl o Lifogydd' (2004) ar gyfer pob cais sy'n golygu datblygu o fewn parthau llifogydd C1, C2 a'r rhannau hynny o barth B lle y pennwyd bod llifogydd yn ystyriaeth berthnasol er mwyn ystyried problemau lleol. Os yw rhan o safle oddi mewn i barth C1 neu C2 mater i'r awdurdod cynllunio lleol fydd barnu a yw ACLl yn ofynnol. Os na fydd y wybodaeth a roddir yn ddigonol, bydd yr awdurdod yn gofyn am fwy o wybodaeth. Os na dderbynnir gwybodaeth y gofynnwyd amdani, gallai hynny arwain at wrthod caniatâd neu ddiffyg dilysu.

B30
Dylai'r ACLl fod yn briodol i faint a graddfa'r datblygiad arfaethedig a dylai edrych ar y mecanweithiau tebygol sy'n achosi'r llifogydd, ac ar y canlyniadau i'r datblygiad o'r llifogydd hynny. Dylai hefyd gadarnhau a ellir cynnwys mesurau lliniaru priodol o fewn dyluniad y datblygiad.

B31
Dylai'r ACLl gael ei gyflawni gan berson cymwys sydd â chymwysterau addas a dylai gyfrannu at y broses ddylunio fanwl ac at ddewis mesurau lliniaru. Mae Nodyn Cyngor Technegol 15: 'Datblygu a Pherygl o Lifogydd' (Gorffennaf 2004) yn rhoi canllawiau cynhwysfawr i awdurdodau cynllunio lleol ac i ymgeiswyr ynghylch cyflawni ACLlau.

**Adroddiad Mwyngloddio**

B32
Os yw cais o fewn yr ardal ymgynghori sydd wedi'i diffinio gan yr Awdurdod Glo, dylai'r adroddiad mwyngloddio a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Glo fod yn rhan o'r cais, ynghyd ag ymchwiliad arbenigol ac asesiad o risg a mesurau unioni. Bydd yn ofynnol cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Glo ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio mewn unrhyw fodd ar weithfeydd glo a haenau glo.

**Asesiad sŵn**

B33
Os yw'r cais am ddatblygu'n codi ystyriaethau sy'n ymwneud ag aflonyddu gan sŵn ar ddeiliaid adeiladau presennol gerllaw, neu os yw'n gais ar gyfer datblygiad y credir ei fod yn sensitif i sŵn a'i fod yn agos i ffynonellau sŵn presennol, dylid rhoi asesiad sŵn i'w

ategu sydd wedi'i baratoi gan acwstegydd sydd â chymwysterau addas. Mae canllawiau yn Nodyn Cyngor Technegol 11: Swn (1997).

**Asesiad Effaith Manwerthu**

B34

Mae Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a Chanol Trefi (1996) yn datgan y dylai pob cais am ddatblygiad manwerthu sydd ag arwynebedd llawr gros o fwy na 2,500 o fedrau sgwâr gael ei ategu gan asesiad o effaith sy'n rhoi tystiolaeth ynghylch y dewis o safle, effeithiau economaidd ac effeithiau eraill, hygyrchedd ac effeithiau amgylcheddol. Efallai y bydd angen asesiadau hefyd ar gyfer rhai datblygiadau llai sy'n debygol o gael effaith fawr ar dref lai neu ganolfan ardal.

**Arfarniad o Annedd Menter Wledig**

B35

Bydd angen rhoi tystiolaeth gadarn i ategu ceisiadau cynllunio am anheddau menter wledig parhaol a dros dro newydd mewn cefn gwlad agored. Rhaid rhoi arfarniad o annedd menter wledig gyda cheisiadau cynllunio am ddatblygiad o'r math hwn a chynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r awdurdod cynllunio i wneud asesiad llawn ac effeithiol. Mae manylion y wybodaeth sydd i'w darparu gan yr ymgeisydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, adran 4.7.

**Asesiad trafnidiaeth**

B36

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pennu trothwyon datblygu. Os bydd cynigion yn uwch na'r trothwyon hyn, disgwylir cyflwyno Asesiad Trafnidiaeth (AT) gyda'r cais cynllunio cysylltiedig. Dylai cwmpas a chynnwys yr AT adlewyrchu graddfa'r datblygiad a graddau'r goblygiadau i drafnidiaeth sydd yn y cynnig. Fel rhan o broses yr AT, dylid cynhyrchu 'Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth' (SGT) ar gyfer y datblygiad. Dylai'r AT gynnig gwybodaeth am raniad moddol tebygol y teithiau i'r safle ac oddi wrtho a dylai'r SGT roi manylion mesurau arfaethedig i wella mynediad drwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, er mwyn lleihau'r angen am barcio sy'n gysylltiedig â'r cynnig, ac i leihau effeithiau trafnidiaeth. Ni fydd y ffaith bod SGT wedi'i chyflwyno gyda'r cais cynllunio'n golygu o reidrwydd y bydd y datblygiad yn dderbyniol. Gellir ystyried amryw o ganllawiau ar arferion da ar gyfer cynlluniau teithio wrth lunio'r SGT.

- 'Using the planning process to secure travel plans: Best practice guidance for local planning authorities, developers and occupiers', Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog/Adran Drafnidiaeth, 2002
- 'Preparing Your Organisation for Transport in the Future: The Benefits of Green Transport Plans', DETR, 1999
- 'School Travel - Strategies and Plans: A Best Practice Guide for Local Planning Authorities', DETR 1999
- 'Green Transport Plans - Best Practice Guidance Note 2', Grwp Cynghori Trafnidiaeth Cymru, 1999
- 'Smarter Choices - Changing the way we travel', Adran Drafnidiaeth, 2004

**Arolwg Coed**

<u>B37</u>
Mae'n ofynnol cael arolwg coed ar gyfer unrhyw waith adeiladu neu beirianyddol lle mae coed o fewn safle'r cais neu'n gyfagos iddo. Dylid llunio'r datganiad yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u nodi yn BS5837:2005. Mae'r Safon Brydeinig yn mynnu y bydd ymarferydd coedyddiaeth yn cofnodi gwybodaeth am goed ar y safle cyn cyflawni unrhyw waith dylunio penodol ar gyfer y datblygiad ac yn annibynnol arno.